# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Croesyceiliog

Dyddiad yr arolygiad: Medi 2025

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

# Crynodeb

Mae Ysgol Croesyceiliog yn gymuned groesawgar a chefnogol y mae disgyblion a staff yn falch o berthyn iddi. Mae perthnasoedd cadarnhaol yn gryfder nodedig yn yr ysgol ac mae arweinwyr yn blaenoriaethu lles staff a disgyblion yn llwyddiannus. Mae ystod y cymorth sydd wedi'i gynllunio'n ofalus i ddiwallu anghenion cymdeithasol ac emosiynol pob un o'r disgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), yn gryfder penodol.

Mewn llawer o achosion, mae'r addysgu sydd wedi'i gynllunio'n ofalus yn helpu disgyblion i wneud cynnydd cadarn, o leiaf. Yn y gwersi hyn, mae disgyblion yn ymddwyn yn dda, yn ymgysylltu â'u dysgu ac yn dal ati i ganolbwyntio. Mewn ychydig o wersi hynod effeithiol, mae disgyblion yn gwneud cynnydd cryf. Yn y gwersi prin lle nad yw athrawon yn darparu digon o her neu'n cynllunio'n effeithiol i ddiwallu anghenion disgyblion, nid yw disgyblion yn gwneud cymaint o gynnydd ag y dylent.

Mae arweinwyr wedi gwneud cynnydd cadarn o ran sicrhau bod cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu eu medrau llythrennedd ar draws y cwricwlwm, yn enwedig darllen. Fodd bynnag, mae'r cyfleoedd iddynt ddatblygu eu medrau rhifedd a digidol mewn cyfnod datblygu cynharach. At ei gilydd, mae disgyblion yn datblygu eu medrau iaith mewn gwersi Cymraeg yn addas, er nad ydynt yn cael digon o gyfleoedd i ymarfer y rhain ar draws yr ysgol. Yn ychwanegol, megis dechrau datblygu y mae cyfleoedd i ddysgu am dreftadaeth a diwylliant Cymru.

Mae'r ysgol wedi datblygu gweledigaeth glir ar y cyd yn llwyddiannus ar gyfer ei chwricwlwm, a gynlluniwyd trwy ymgynghori â disgyblion, rhieni a phartneriaid. Caiff y cwricwlwm ei gyfoethogi gan amrywiaeth eang o weithgareddau allgyrsiol, tripiau, a chyfleoedd creadigol sy'n cefnogi datblygiad personol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn dda.

Mae arweinwyr wedi gwneud gwelliannau buddiol mewn meysydd pwysig o waith yr ysgol, gan gynnwys darpariaeth ar gyfer llythrennedd a chyfraddau presenoldeb. Mae presenoldeb disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim wedi gwella flwyddyn ar ôl blwyddyn ac yn cymharu'n ffafriol â lefelau mewn ysgolion tebyg. Mae arweinwyr wedi datblygu diwylliant cryf o waith tîm a chydweithio. Mae prosesau hunanwerthuso cryfach yn helpu arweinwyr i ddeall cryfderau'r ysgol a'i meysydd pwysicaf i'w datblygu, er nad yw eu gwerthuso bob amser yn canolbwyntio'n ddigon craff ar effaith y ddarpariaeth ar gynnydd disgyblion. Mae llywodraethwyr yn rhagweithiol, yn fyfyriol ac yn wybodus am waith yr ysgol. O ganlyniad, maent yn darparu cymorth a her werthfawr i arweinwyr.

# Argymhellion a beth sy’n digwydd nesaf

**Rydym wedi gwneud tri argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella:**

A1 Miniogi prosesau hunanwerthuso fel bod arweinwyr yn canolbwyntio’n fanwl gywir ar effaith yr addysgu ar ddysgu a chynnydd disgyblion

A2 Sicrhau bod disgyblion yn cael cyfleoedd dilys ac addas o heriol i gymhwyso’u medrau rhifedd a digidol mewn pynciau perthnasol

A3 Cynyddu cyfleoedd i ddisgyblion ymarfer a datblygu eu medrau Cymraeg ar draws yr ysgol, ac ymestyn eu gwerthfawrogiad o dreftadaeth a diwylliant Cymru

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ar ei gwaith yn gysylltiedig â gwella ymddygiad disgyblion a’u hagweddau at ddysgu trwy ymagwedd gydweithredol at feithrin perthnasoedd cryf a chadarnhaol, i’w lledaenu ar wefan Estyn.

## Adroddiad llawn

Os hoffech ddarllen mwy am werthusiad Estyn o’r ysgol, dilynwch y ddolen hon i’r adroddiad llawn.

© Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio’r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio’n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 01/12/2025